

Cywion y Pasg

Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur neu gerdyn argraffu
- Siswrn
- Glud
- Pensiliau lliw, creonau a phinnau ffelt



Argraffwch y ffeil ar gyfer y cywion Pasg.

Os wnaethoch argraffu'r cywion ar bapur efallai y byddwch eisiau gludo'r papur ar ddarn o gerdyn tenau i'w wneud yn llai llipa. Efallai gallech ddefnyddio bocs grawnfwyd gwag?

Pan fydd y glud yn sych, torrwch o amgylch y siapiau cywion a'r siâp wy hir cyfan, gan gynnwys y tabiau, yn ofalus. Gofynnwch i oedolyn eich helpu.

Gallwch blygu tab y cyw sy'n cerdded ar ei ochr yn ôl fel y gall y cyw sefyll. Gwnewch hynny nawr a rhowch eich cyw i'r naill ochr.



Defnyddiwch binnau ffelt a phensiliau i ychwanegu lliw at eich siâp wy,

neu gallech ddefnyddio sticeri neu ddarnau bach o bapur lliw i'w addurno.

Plygwch siâp yr wy lle rydych chi'n gweld y llinellau dotiog llwyd, fel bod y ddau hanner wy yn cwrdd â'i gilydd ar yr un ochr, i ffurfio siâp wy cyfan. Cofiwch blygu'r wy fel bod yr addurniadau ar y tu allan.

Nesaf plygwch y ddau dab bach fel bod un ochr yn dod yn 'boced' ac y gellir agor a chau'r ochr arall.

Gall y cyw sy'n wynebu'r tu blaen gyda'i adenydd wedi'i ledaenu nawr eistedd yn braf ac yn glyd y tu mewn i'w wy, gan ddeor a neidio i mewn ac allan pryd bynnag y mae'n dymuno.



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus.